# Pwyllgor Adolygu Gweithredol

## 06 Rhagfyr 2023

Yn Bresennol: Cynghorydd SL Hancock, Cynghorydd R Jordan, Mr GA Jones, Mrs J James, Dr RM Plummer, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams.

Hefyd yn bresennol: Mitchell Hill (Swyddog Gwirfoddoli ar gyfer Gwreiddiau at Adferiad a Llwybrau), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Sarah Mellor (Arweinydd y Tîm Cadwraeth ac Ecolegydd Arweiniol), Sara Morris (Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu), Graham Peake (Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant), Gail Pearce (Rheolwr Rhaglen y Byrddau Rheoli Maethynnau), Maisie Sherratt (Swyddog Ieuenctid a Chynhwysiant a Gwreiddiau at Adferiad), Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth), Sarah Walters (Swyddog Prosiect Gwreiddiau at Adferiad) a Michelle Webber (Pennaeth Adfer Natur).

[Ymunodd y Cynghorydd M Wiggins â'r cyfarfod adeg ystyried adroddiad 09/23, Byrddau Rheoli Maethynnau.]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00yb – 12.15yp)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Morgan a'r Cynghorydd A Wilcox. Roedd y Cynghorydd M Wiggins wedi rhoi gwybod y byddai'n hwyr yn cyrraedd.

**2. Datgan Buddiannau**

Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ac fel Ymddiriedolwr Plantlife. Fodd bynnag arhosodd yn y cyfarfod a chymryd rhan lawn yn y trafodaethau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd R Jordan, a eiliwyd gan y Cynghorydd SL Hancock, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Yn y cyfarfod blaenorol, roedd yr Aelodau wedi cytuno y byddai'n briodol i'r cyflwyniad ar Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro gael ei gyflwyno i Aelodau Cyngor Sir Penfro, a gofynnwyd am ddiweddariad gan y Swyddogion ar hyn.

Dywedwyd bod y cyflwyniad wedi'i rannu â Richard Downes, y Cyfarwyddwr Addysg. Cytunodd Aelod, oedd hefyd yn aelod o Bwyllgor Ysgolion a Dysgu Cyngor Sir Penfro, i drafod hyn gyda'r unigolion perthnasol i sicrhau dyddiad ar gyfer y cyflwyniad.

**Nodwyd.**

**5. Byrddau Rheoli Maethynnau**

Croesawodd y Cadeirydd Gail Pearce-Taylor, Rheolwr Rhaglen y Byrddau Rheoli Maethynnau, a gyflwynodd adroddiad ar y camau ymlaen a gymerwyd o ran ffosffadau a'r gwaith a gyflawnwyd gan y Byrddau i wella statws amodau ffafriol dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) tra'n hwyluso datblygiad niwtral o ran maethynnau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCAP). Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth gefndir, dadansoddiad o ddyletswyddau PCAP, diweddariad ar y cynnydd a wnaed, y ffrydiau gwaith cyfredol, a'r camau nesaf.

Nododd Aelod y lefel uchel o gydweithio sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r gormodedd o ffosffadau yn y dalgylchoedd ACA afonol, a gofynnodd sut mae costau'r prosiect yn cael eu rhannu rhwng y pedwar Awdurdod dan sylw. Ymatebodd Gail bod y Byrddau yn cael eu hariannu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac y byddai'r cyllid hwn yn parhau am flwyddyn a hanner arall. Wedi hynny, eglurodd Gail y byddai angen i'r Byrddau edrych ar ddarparu adnoddau i'w gwaith drwy gymorth awdurdodau lleol, ac y byddai modelau ariannu cyfunol yn cael eu harchwilio i ddenu cyllid datblygwyr a chyllid cyhoeddus, lle bo hynny'n briodol ac yn bosibl. Ychwanegwyd y byddai'r cymorth a ddisgwylir gan Awdurdodau yn gymesur ar sail maint daearyddol y dalgylch ACA yn ardal pob Awdurdod. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu, er mai dim ond ardal fach o fewn y Parc oedd yn cael ei heffeithio gan y dalgylchoedd ACA, bod hynny yn cael effaith ar geisiadau cynllunio ac yn atal rhai unigolion rhag cael caniatâd cynllunio.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am Gyfrifiannell Cyllideb Maethynnau oedd yn cael ei chydnabod fel yr unig gyfrifiannell maethynnau a gefnogir gan reoleiddiwr yng Nghymru. Gofynnodd Aelod a oedd cyfle i ddefnyddio'r offer hwn fel modd o gynhyrchu incwm. Mewn ymateb, cadarnhaodd Gail nad oedd hawlfraint ar y model a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r gyfrifiannell ac felly ni fyddai'r Byrddau yn gallu cyfyngu mynediad i gynhyrchu incwm. Ychwanegodd bod cyfleoedd eraill i gynhyrchu incwm yn cael eu harchwilio gan gynnwys system fasnachu o'r safon orau i ddatblygwyr, a bod yr arbenigedd oedd wedi'i gasglu yng Ngorllewin Cymru yn gyfle ynddo'i hun.

Dywedwyd bod gwaith y Byrddau yn hanfodol yn yr ymdrechion i fynd i'r afael â materion megis yr argyfwng hinsawdd, a gofynnodd Aelod am enghraifft o welliannau a welwyd o ganlyniad i waith y Byrddau. Ymatebodd Gail bod cyfran fawr o'r gwaith wedi'i wneud yn ardal Dalgylch Teifi wrth i arian gael ei

sicrhau ar gyfer prosiect lleihau a lliniaru ffosffadau yn yr ardal honno. Ychwanegodd Gail bod y Bwrdd, fel rhan o'r prosiect hwnnw, wedi gweithio gyda ffermwyr i fynd i'r afael â phroblemau hysbys nad oedd ganddynt yr arian o bosibl i'w hunioni eu hunain megis problemau draenio, gosod toeau dros storfeydd tail a phlannu llystyfiant clustogi ar hyd afonydd i leihau'r dŵr ffo a ffensio afonydd i rwystro da byw rhag mynd at y dŵr. Ar fater yr argyfwng hinsawdd, tynnodd Gail sylw at y ffaith bod y targedau rhagweithiol a osodwyd gan y Byrddau wedi'u llywio gan effeithiau'r newid yn yr hinsawdd oherwydd yn yr haf, roedd llif isel o ddŵr yn crynhoi maethynnau, ac yn y gaeaf, roedd glaw trymach yn achosi mwy o ddŵr ffo oddi ar y tir.

Nodwyd o'r mapiau yn yr adroddiad bod methiannau ffosffad helaeth yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau, a gofynnodd Aelod a oedd Gwaith Trin Carthion neu ddatblygiad yn yr ardal wedi cyfrannu at hyn. Ymatebodd Gail bod Gwaith Trin Carthion wedi cael trwyddedau amgylcheddol oedd yn cyfyngu ar faint o ffosfforws y caniateir iddynt ei ryddhau yn eu helifion. Ychwanegwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru, wedi adolygu pob Gwaith Trin Carthion yng Nghymru yn erbyn y targedau newydd ac yn cyhoeddi trwyddedau newydd i sicrhau cydymffurfiaeth. Dywedwyd bod Dŵr Cymru wedyn wedi buddsoddi yn eu hisadeiledd cyfalaf i wella'r modd yr oedd eu Gwaith Trin Carthion yn gweithredu o ran ffosfforws. Eglurodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu nad oedd unrhyw gysylltiad clir rhwng datblygu a'r lefelau uchel o ffosfforws yn yr ardal yr effeithiwyd arni waethaf yn Sir Benfro ac ychwanegodd bod y lleoliad hwn wedi'i glustnodi yn ardal ar gyfer buddsoddiad gan Dŵr Cymru.

**Nodwyd.**

*[Gadawodd y Cynghorydd M Wiggins y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 10/23, Diweddariad ar y prosiect Llwybrau a Gwreiddiau at Adferiad.]*

**6. Diweddariad ar y Prosiect Llwybrau a Gwreiddiau at Adferiad**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Graham Peake (Arweinydd Tîm Dysgu a Chynhwysiant), Maisie Sherratt (Swyddog Ieuenctid a Chynhwysiant a Gwreiddiau at Adferiad), Mitchell Hill (Swyddog Gwirfoddoli ar gyfer Gwreiddiau at Adferiad a Llwybrau), a Sarah Walters (Swyddog Prosiect Gwreiddiau at Adferiad) a gyflwynodd ddiweddariad ac adolygiad o'r prosiect Gwreiddiau at Adferiad a'r prosiect Llwybrau. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion ar gefndir y ddau brosiect, y cysylltiadau a'r gwahaniaethau rhwng y ddau brosiect, buddion y prosiectau, ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol, adborth cadarnhaol gan y cyfranogwyr, data'r prosiectau a rhestr o'r sefydliadau partner. Cyflwynodd y Swyddogion grynodeb o sefyllfa ariannol y prosiectau a chadarnhawyd bod y ddau yn ddarnau o waith oedd wedi'u hariannu'n gyfan gwbl. Eglurodd y Swyddogion bod y cyllid ar gyfer Llwybrau yn ymestyn tan fis Mehefin 2024 (y gobaith oedd cael cyllid i barhau â'r

prosiect) a bod Gwreiddiau at Adferiad yn ei flwyddyn olaf (roedd y tîm yn y broses o ddatblygu prosiect dilynol priodol allai ddilyn). Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Aelodau, ychwanegodd y Swyddog bod nifer o geisiadau cryf wedi'u cyflwyno am gyllid, a bod y tîm yn weddol hyderus y byddai hyn yn arwain at lwyddo i sicrhau cyllid.

Rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad oedd yn cynnwys amrywiaeth o ddelweddau, yn portreadu y math o weithgareddau oedd yn rhan o'r prosiectau, ac astudiaethau achos gan unigolion a gymerodd ran.

Canmolodd yr Aelodau y Swyddogion am bopeth a gyflawnwyd drwy'r ddau brosiect, ac roedd y manteision yn amlwg. Gofynnodd Aelod a allai Swyddogion roi enghraifft o stori o lwyddiant a ddaeth yn sgîl y naill brosiect neu'r llall, ac mewn ymateb, rhoddodd Swyddog wybod i'r Aelodau am Fentor oedd, o ganlyniad i ddatblygiad personol a'r sgiliau a gafodd o fod yn rhan o'r prosiect Gwreiddiau at Adferiad, wedi mynd ymlaen i fod yn aelod o staff MIND. Ychwanegwyd bod yr unigolyn hwn, diolch i'r prosiect, wedi symud ymlaen o fethu â chyflwyno ei hun i wneud cyflwyniadau i grwpiau mewn colegau ac ysgolion, i gyd o fewn y cyfnod o 18 mis. Pwysleisiodd yr Aelodau pa mor bwysig yw cofnodi'r canlyniadau hyn at ddibenion ceisiadau am gyllid yn y dyfodol. Awgrymodd y Cadeirydd bod y tîm yn cynnal dadansoddiad o'r adenillion cymdeithasol o fuddsoddi gan y gallai hynny hefyd fod yn gymorth wrth wneud ceisiadau am gyllid yn y dyfodol, a nodwyd hynny gan y Swyddogion.

Nodwyd bod gan Gwreiddiau at Adferiad hwb yn Ne ac yng Nghanolbarth Sir Benfro, a dywedodd Aelod y byddai'n gadarnhaol gweld hwb yn y Gogledd hefyd yn y dyfodol i wella hygyrchedd. Cadarnhawyd bod hwb yn y Gogledd wedi'i sicrhau yn Abergwaun ond roedd y tîm wedi cael anhawster i gynnal grŵp ar gyfer y prosiect yn yr ardal honno. Er hyn, roedd gan y tîm fwriad i geisio sefydlu hwb yn y Gogledd unwaith eto yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod am gael gwybod am ddigwyddiadau yn y dyfodol gan y prosiectau er mwyn cael cyfle i fynychu a chwrdd â rhai o gyfranogwyr y prosiectau, a nodwyd hyn gan y Swyddogion. Awgrymwyd y gallai digwyddiad o'r math hwn o bosibl gael ei gynnwys mewn Diwrnod Astudio i'r Aelodau.

Yn olaf, gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddogion beth oedd yr heriau mwyaf i'r prosiectau, a chytunwyd bod diffyg canolfan ar gyfer gweithgareddau tywydd gwlyb yn her gan fod tywydd garw yn gorfodi Swyddogion i ganslo sesiynau gan achosi siom fawr i bawb oedd yn cymryd rhan. Ychwanegwyd bod cludiant hefyd yn her gan fod nifer o gyfranogwyr y prosiect yn llwyr ddibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac mai Mitchell oedd yr unig Swyddog a allai yrru'r bws mini gan nad oedd aelodau eraill o'r tîm wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol. Manteisiodd y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd,

Datgarboneiddio ac Ymgysylltu ar y cyfle i roi gwybod i bawb bod diffyg canolfan tywydd gwlyb wedi'i godi gyda'r Grŵp Rheoli Asedau oedd erbyn hyn yn ymchwilio i’r mater.

**Nodwyd.**

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:05am a 11:15am.]*

**7. Adroddiad ar Waith Cadwraeth 2022/23**

Croesawodd y Cadeirydd Sarah Mellor, Arweinydd y Tîm Cadwraeth ac Ecolegydd Arweiniol, a gyflwynodd adroddiad oedd yn nodi'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer yr Awdurdod drwy waith cadwraeth a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am enghreifftiau penodol o’r hyn a gyflawnwyd o dan y cynllun 'Gwarchod y Parc', y cynnydd a wnaed ar safleoedd sy'n eiddo i’r Awdurdod, adroddiad ar brosiectau partneriaeth, y cynnydd ar brosiectau a arweinir gan yr Awdurdod a chanlyniadau monitro rhywogaethau.

Manteisiodd y Swyddog ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar faterion a godwyd fel rhan o'r Adroddiad Cadwraeth blaenorol gan gynnwys y cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy oedd yn ariannu cynlluniau’r Awdurdod, sef Gwyrddu Amaethyddiaeth, Ffiniau Traddodiadol a Chysylltu'r Arfordir. Dywedodd y Swyddog bod pob cynllun wedi derbyn lefel uchel o ddiddordeb ac wedi cynyddu cysylltiadau'r Awdurdod â'r gymuned ffermio leol. Dywedwyd bod y cynllun Cysylltu'r Arfordir diweddaraf wedi derbyn nifer fawr o gynigion oedd bellach yn cael eu sgorio ac y byddai diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod yn y dyfodol gan y Swyddog Cadwraeth perthnasol. O ran cyllid allanol, cadarnhawyd bod y Tîm Cadwraeth yn derbyn eu lefel uchaf o gyllid hyd yn hyn a'u bod yn aros am ganlyniad cais y Rhwydwaith Natur am gyllid, a disgwylir newyddion ar ôl y Nadolig.

Gydag adroddiad y Byrddau Rheoli Maethynnau mewn golwg, gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Tîm Cadwraeth yn cydweithio â sefydliadau eraill megis y Byrddau dan sylw. Cadarnhaodd y Swyddog bod gorgyffwrdd yn y gwaith yr oedd yr Awdurdod a'r Byrddau yn ei wneud, yn enwedig yn ardal Cleddau Wen a gydnabyddir fel ardal bioamrywiaeth allweddol. Ychwanegwyd bod angen dulliau integredig o weithio gan y ddau sefydliad i sicrhau y gellid cymryd ystod o gamau gweithredu i fynd i'r afael â materion presennol mewn modd sy'n atal unrhyw ganlyniadau negyddol yn y dyfodol.

Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y gwaith caled a wneir gan y Tîm Cadwraeth, a gofynnodd a oedd y tîm yn gweithio hyd eithaf eu capasiti neu a oedd hyd yn oed mwy y gellid ei gyflawni. Cadarnhaodd y Swyddog bod y tîm ar hyn o bryd yn gweithio gyda rhyw 9.5% o reolwyr tir yn y sir ond bernid y gellid cyflawni mwy gyda’r cyllid SLSP a dderbyniwyd yn y flwyddyn ddiwethaf. Er hyn, roedd y Swyddog yn cydnabod bod gwaith y tîm yn

ddibynnol i raddau helaeth ar gyllid allanol a bod lefel o ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r effaith hir dymor ar y cynlluniau presennol pe na bai cyllid allanol ar gael. Eglurodd y Swyddog bod y tîm yn y broses o edrych i'r dyfodol pan ddaw'r cyllid presennol i ben er mwyn deall yr hyn y gellid ei gynnal pe na bai cyllid ar gael a pha gyllid arall y gellid ei geisio i barhau â'u gwaith da.

Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, cadarnhawyd bod gan yr Awdurdod ystod o dystiolaeth o'r cynllun Gwarchod y Parc bod tirfeddianwyr yn cyfeirio achosion at dirfeddianwyr cymwys eraill, a bod hyn yn amlwg wedi helpu i dynnu sylw at y cynllun.

Cynigiodd y Cadeirydd y syniad o gynnal hyfforddiant a/neu gynllun cydnabod ar gyfer adeiladwyr a thowyr i ennyn ymwybyddiaeth o fywyd gwyllt ac i annog arfer da o ran cadwraeth. Nodwyd hyn gan y Swyddog a gadarnhaodd y byddai'n cyflwyno'r syniad i'r Rhwydwaith Partneriaeth Natur lleol oedd wedi datblygu ystod o adnoddau ar y cyd o'r math hwn.

**Nodwyd.**

*[Gadawodd y Cynghorydd C Williams y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 12/23, Adroddiad Perfformiad.]*

**8. Adroddiad Perfformiad am y Cyfnod yn diweddu 30 Medi 2023**

Roedd yr adroddiad yn dilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2022/23 ac yn cyflwyno'r perfformiad hyd at 30 Medi 2023. Roedd yn cynnwys ystadegau Chwarter 2 ar gyfer rhai mesurau ac yn amlygu'r meysydd hynny lle'r oedd targedau mewn coch neu felyn neu lle bu cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud.

Adroddodd y Swyddog ar feysydd a themâu allweddol oedd yn cynnwys Cynlluniau Cyflawni, Cadwraeth, yr Hinsawdd, Cyswllt, Cymunedau, Perfformiad Cynllunio a Meysydd o Newid Corfforaethol. Tynnodd y Swyddog sylw at y ffigurau gorfodi ac eglurodd bod cau nifer sylweddol o achosion y De yn Chwarter 2 wedi effeithio ar fesurau 'cyfartaledd yr amser a gymerwyd i ymchwilio' a'r 'amser a gymerwyd i gymryd camau gorfodi'. Eglurodd y Swyddog bod rhai achosion y dylid fod wedi'u cau ond oedd yn parhau i fod ar agor ar y system wedi'u clustnodi a'u cau yn Chwarter 2 oedd yn effeithio ar y mesurau wedi hynny. Dywedwyd bod y Rheolwyr yn adolygu'r prosesau gyda'r staff i atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol, ac yn dilyn recriwtio dau aelod o staff ychwanegol, bod gan y tîm fwy o gymorth.

O dan thema allweddol yr Hinsawdd, dywedwyd bod Arolwg Traffig a Pharcio yn Sir Benfro wedi'i lansio fis Gorffennaf fel rhan o Astudiaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy, a gofynnodd Aelod beth yn union oedd yn cael ei arolygu fel rhan o'r astudiaeth hon. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog bod yr arolwg yn edrych ar elfennau megis rheoli hamdden a mannau problemus a

bod yr arolwg bellach yn y cam o adolygu'r canlyniadau. Dywedodd y Swyddog y byddai cyflwyniad ar y canlyniadau hyn yn cael ei roi gerbron y Pwyllgor yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y cynllun E-Feic a ariannwyd gan SLSP a ‘lansiwyd yn feddal’ fis Hydref 2023, a gofynnodd Aelod am ragor o fanylion ynghylch y lansiad a maint y cynllun. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y cynllun yn cynnwys rhyw 6 beic, a chynhaliwyd y lansiad meddal yn Oriel y Parc, lle gallai aelodau'r cyhoedd logi beic ar y diwrnod. Ychwanegwyd y bydd yr Awdurdod o bosibl yn trefnu lansiad mwy yn ystod gwanwyn 2024 ond diben y 'lansiad meddal' oedd treialu'r cynllun i ddatrys unrhyw broblemau posibl cyn i'r tymor prysur gyrraedd.

O dan thema allweddol 'Cymunedau', dywedwyd bod y fenter Llwybrau Celtaidd wedi dod i ben fis Gorffennaf 2023, a gofynnodd Aelod a oedd gan yr Awdurdod unrhyw gynlluniau i barhau â’r fenter. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y fenter wedi dod i ben gan ei bod wedi'i hariannu gan arian Ewropeaidd nad oedd ar gael bellach. Mewn ymateb, roedd yr Aelod yn holi a ellid fod wedi ceisio ffynonellau eraill o gyllid i barhau â'r fenter, a dywedodd y Cadeirydd y gall fod modd i'r Awdurdod wella'r ffordd yr oedd yn cyfleu canlyniadau mentrau megis Llwybrau Celtaidd.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar ddiffyg staff sy'n siarad Cymraeg yng Nghastell Henllys, a dywedodd bod angen gwella hyn. Gofynnodd Aelod a oedd gan yr Awdurdod gynllun ar sut i gyflawni hyn, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei wneud naill ai drwy recriwtio neu drwy uwch-sgilio’r staff presennol.

Gan gyfeirio ymhellach at drafodaeth a gynhaliwyd yn y cyfarfod diwethaf, gofynnodd Aelod am gadarnhad o union gostau safonau’r Gymraeg ar Coast to Coast ac a fyddai angen i’r hysbysebion ymddangos yn ddwyieithog yn ogystal. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd safonau'r Gymraeg yn berthnasol i hysbysebu, felly byddai'r hysbysebion yn parhau yn Saesneg yn unig. Eglurwyd mai nod yr Awdurdod oedd cadw'r un lefel o hysbysebu â’r rhifynnau blaenorol ac felly dim ond y prif gynnwys fyddai’n cael ei effeithio gan y newidiadau hyn. Ychwanegwyd bod yr effaith ar y costau yn gyffredinol yn aneglur gan fod nifer o ffactorau allai effeithio ar y refeniw hysbysebu yn rhifyn 2024 gan gynnwys yr argyfwng costau byw.

Dywedwyd bod Swyddog Iechyd a Lles newydd yr Awdurdod bellach yn ei swydd, ac roedd Aelod wedi gofyn am i’r Swyddog gael ei wahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn y dyfodol i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar ei faes gwaith. Nodwyd hyn gan y Swyddogion.

Tynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol sylw at y ffaith bod y data absenoldeb salwch oedd yn rhan o'r adroddiad perfformiad wedi'i gyflwyno ar

ffurf wahanol i'r data a gynhwyswyd yn yr adroddiad AD a bod pryder y gallai hyn achosi dryswch. Cadarnhaodd yr Aelod y byddent yn cysylltu â Rheolwr AD yr Awdurdod i geisio sefydlu'r ffordd orau o gyflwyno'r ystadegau hyn at ddibenion meincnodi.

Nodwyd bod y ffigurau ar Hyfforddiant Aelodau â sgôr coch yn y statws coch melyn gwyrdd, a holodd Aelod a oedd y Gweithdai i'r Aelodau wedi'u cynnwys yn y ffigur gan ei bod yn amau nad oedd pob elfen o hyfforddiant wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar y mesur hwn. Byddai'r mater yn cael ei godi yn y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau fyddai'n cael ei gynnal cyn hir.

Dywedwyd bod gwaith yn ymwneud ag Arolwg LIDAR (yr adroddwyd yn flaenorol ei fod wedi'i ohirio) wedi'i gwblhau a bod y set data wedi'i phrosesu gan arbenigwr allanol. Gofynnodd Aelod ymhle y gellid dod o hyd i'r wybodaeth hon ac a oedd ar gael i bawb ei gweld. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'n gofyn am ddiweddariad gan yr Archaeolegydd Cymunedol ynghylch ble oedd y wybodaeth hon yn cael ei chadw.

Cadarnhaodd yr adroddiad bod gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'i gwblhau a bod y system bellach yn gwbl weithredol. Cadarnhawyd y byddai gwybodaeth bellach ar y defnydd a wneir ohonynt ac effaith hynny yn cael ei chyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad byr ar weithredu Microsoft 365 o ran y Parcnet newydd, a nodwyd bod hyfforddiant ar gyfer y tîm Technoleg Gwybodaeth wedi'i ohirio oherwydd pwysau adnoddau. Gofynnodd Aelod a allai'r mater capasiti hwn arwain at faes risg i'r Awdurdod, ac ymatebodd y Prif Weithredwr er bod Technoleg Gwybodaeth yn faes heriol i'r Awdurdod, bod y tîm wedi addasu'n dda i'r amgylchiadau. Ychwanegwyd bod y tîm yn mynd drwy broses o asesu risg oedd yn llywio eu cynllun gweithredu i reoli'r risg.

Nodwyd bod Swyddogion yn archwilio dulliau caffael eraill er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o ailddatblygu'r Ystafell Werdd yn dilyn dwy ymdrech aflwyddiannus flaenorol i benodi contractwyr. Gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ar y mater, a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol nesaf fyddai'n amlinellu'r diweddariad diweddaraf i bob Aelod.

**Nodwyd.**

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2024 heb eu diwygio.